# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau*

VALID FROM 31/03/2015

**6 Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1, gan gynnwys is-ddeddfau sy'n diwygio neu'n dirymu is-ddeddfau a wnaed ganddo'n flaenorol.

(2) Cyn iddo wneud is-ddeddf, rhaid i awdurdod –

(a) cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cychwynnol ar wefan yr awdurdod sy'n disgrifio'r mater y mae'r awdurdod o'r farn y gallai gwneud is-ddeddf fynd i'r afael ag ef;

(b) ymgynghori ag unrhyw berson (gan gynnwys cyngor cymuned pan fo hynny'n gymwys) y mae'r awdurdod o'r farn ei fod yn debygol o fod â diddordeb yn y mater neu'n cael eu heffeithio ganddo.

(3) Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod ystyried yr ymatebion a phenderfynu ai gwneud is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater.

(4) Yna rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig ar ei wefan sy'n cynnwys –

(a) y datganiad ysgrifenedig cychwynnol;

(b) crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymatebion;

(c) ei benderfyniad;

(d) y rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

(5) O leiaf chwe wythnos cyn bod yr is-ddeddf yn cael ei gwneud, rhaid cyhoeddi hysbysiad o'r bwriad i wneud yr is-ddeddf –

(a) mewn un neu fwy o bapurau newyddion lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r is-ddeddf i fod yn gymwys iddi;
(b) ar wefan yr awdurdod.

(6) Am o leiaf chwe wythnos cyn bod yr is-ddeddf yn cael ei gwneud, rhaid i’r awdurdod sicrhau –
(a) bod drafft o’r is-ddeddf yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod;
(b) bod copi o’r drafft yn cael ei adneuo mewn man yn ardal yr awdurdod;
(c) bod copi ar gael i’w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;
(d) pan fo’n gymwys, bod copi yn cael ei anfon at bob cyngor cymuned y mae’r awdurdod o’r farn ei bod yn debygol yr effeithir ar ei ardal gan yr is-ddeddf.

(7) Rhaid i’r awdurdod roi copi o’r is-ddeddf ar ffurf ddrafft i unrhyw berson sy’n gwneud cais amdano, ar yr amod bod y person hwnnw’n talu ffi resymol a godir gan yr awdurdod (os oes un).

(8) Ni chaiff awdurdod wneud is-ddeddf yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad yn is-adran (5).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/09/2013. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Adran 6.